Creation flourishing

**Amser i ddathlu a gofalu**



# Gweddïau o eiriolaeth

Ffoto: gweler y gydnabyddiaeth

***Paratowyd gan Catherine Brennan SSL ar gyfer Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon***

## Cyfres 1

O Dduw Sanctaidd; mae'r holl ddaear yn llawn o'th ogoniant; helpa ni i fyw mewn cytgord â'n hamgylchedd.
Clyw ni, Arglwydd
*Ymateb:* Yn dy ras, clyw ni, Arglwydd.

Iesu, roeddet ti'n caru'r tir a'r caeau blodau; bendithia ffermwyr, garddwyr a phawb sy'n trin y pridd ac yn gofalu amdano.
Clyw ni, Arglwydd
*Ymateb:* Yn dy ras, clyw ni, Arglwydd.

Iesu, fe ddysgaist ti dy ddilynwyr i deithio'n ysgafn trwy fywyd; galw ar ein diwylliant ni o ddefnyddwyr i newid byd – i werthoedd sy'n arwain at fywyd.
Clyw ni, Arglwydd
*Ymateb:* Yn dy ras, clyw ni, Arglwydd.

O Dduw, un ydym ynot ti, ac mae popeth a wnawn yn effeithio ar y cyfanfyd; gwna ni'n ymwybodol o'n gallu i wneud da neu ddrwg i'r byd trwy bob meddwl, gair a gweithred.
Clyw ni, Arglwydd
*Ymateb:* Yn dy ras, clyw ni, Arglwydd.

Mae rhoddion y ddaear wedi'u dosbarthu'n anwastad, a hiraethwn am wella sefyllfa'r rhai sydd mewn angen; cyffwrdd â chalonnau'r rhai sy'n rhoi mwy o bwys ar fudd personol neu genedlaethol nag ar les y cyfan.
Clyw ni, Arglwydd
*Ymateb:* Yn dy ras, clyw ni, Arglwydd.

Trwy ddod i'n plith mewn cnawd codaist y greadigaeth gyfan i urddas newydd; dysg ni i barchu dy greadigaeth hael fwyfwy ac i deimlo cyfrifoldeb dros ei chadwraeth.
Clyw ni, Arglwydd
*Ymateb:* Yn dy ras, clyw ni, Arglwydd.

*Offeiriad/Arweinydd:* Arglwydd rhagluniaethol, yn dy ras rwyt yn rhoi rhoddion da i ni i gyd. Dysg ni i ofalu am ein daear: i drin y pridd yn gyfrifol, i gadw'r aer yn bur, i gadw ein dyfroedd heb eu llygru, i gynaeafu gwres yr haul, ac i barchu hawliau pob rhywogaeth. Boed i ni fod yn barod i rannu rhoddion dy ddaioni gyda phawb. Gofynnwn hyn gennyt, Dduw ein Bydysawd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

## Cyfres 2

Daw'r greadigaeth gyfan oddi wrthyt Ti, O Dduw, ac rwyt wedi'n gwahodd ni i fod yn stiwardiaid arni. Rho lygaid i ni weld gwaith dy ddwylo ym mhob creadur.
Clyw ein gweddi, O Dduw
*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Grist ein goleuni, rydym yn ostyngedig yn wyneb dy symlrwydd; dangos i ni ffyrdd creadigol o fyw'n syml, gan gadw'n hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Clyw ein gweddi, O Dduw
*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Ysbryd Duw, rwyt ti'n hyrwyddo cynnydd, ac yn gwneud popeth yn newydd. Rho i ni'r weledigaeth angenrheidiol i ddatblygu er gwell heb ddinistrio'n treftadaeth hollbwysig.
Clyw ein gweddi, O Dduw
*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Rwyt yn rhoi'r glaw a'r cymylau yn rhoddion bywyd a harddwch i ni, O Dduw; dysg ni sut i ddefnyddio a diogelu dyfroedd y ddaear.
Clyw ein gweddi, O Dduw
*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Ysbryd y Creawdwr, rwyt yn addurno'r ddaear â harddwch pob tymor; deffro ni i'th ofal cariadus dros bopeth sy'n bodoli wrth i ti lenwi ein calonnau â lliw a syndod.
Clyw ein gweddi, O Dduw
*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Gweddïwn dros amgylcheddwyr, y rhai sy'n ailgylchu, a'r rhai sy'n trin y tir, yn gofalu am y cnydau, ac yn medi cynnyrch ein daear. Boed iddynt gael eu cadarnhau a'u cynnal yn eu hymdrechion i ddiogelu'r ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, fel bod cynhaeaf ein tir yn cynhyrchu digon i bawb.
Clyw ein gweddi, O Dduw
*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

*Offeiriad/Arweinydd:* O Dduw, creaist ti bopeth mawr a bach, ac rwyt yn gofalu am y cyfan. Helpa ni i weld dy bresenoldeb cynhaliol ym mhob man. Dysg ni i fyw yn gyfrifol, gan rannu rhoddion y greadigaeth gyda boddhad

## Cyfres 3

Dduw haelionus, rwyt yn ymhyfrydu yn dy holl greaduriaid; helpa ni i barchu amrywiaeth cyfoethog y ddaaer ac i rannu gyda'n gilydd a chyda phob creadur byw mewn modd cyfrifol.

Clyw ein gweddi, O Dduw

*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Grist Iesu, anfonaist dy ddilynwyr i bregethu'r newyddion da i'r holl greadigaeth; boed i bob person a phob creadur brofi dy gyfiawnder a'th gariad trwy'r rhai sy'n cyffesu eu ffydd ynot ti.

Clyw ein gweddi, O Dduw

*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Tywallt dy Ysbryd ar ein dyfroedd, ac ar y rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch purdeb ein moroedd, ein hafonydd a'n llynnoedd.

Clyw ein gweddi, O Dduw

*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Gweddïwn dros ddioddefwyr newyn. Dilea newyn o'n byd a dysg ni i rannu.

Clyw ein gweddi, O Dduw

*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Trwy wyddonwyr ac ysgolheigion, daw gwybodaeth newydd i'r amlwg; boed i hynny hyrwyddo ansawdd bywyd pob person a phob creadur yn eu taith at fod yn gyfan.

Clyw ein gweddi, O Dduw

*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

Mae dy ddaear a ysbeiliwyd, gyda'i amrywiaeth cyfoethog o rywogaethau dan fygythiad, yn gweiddi am gael ei iacháu. Helpa ni i fod yn offerynnau'r iachâd hwnnw ac i adfer y niwed a wnaethom i'n planed.

Clyw ein gweddi, O Dduw

*Ymateb:* O Arglwydd, boed i ni garu'r greadigaeth gyfan

*Offeiriad/Arweinydd:* Dduw cariad, rhoddaist ti'r bydysawd hwn yn llawn o'th roddion i ni. Helpa ni i ddangos parch at dy greadigaeth gyfan, gan barchu hawliau pob rhywogaeth, ac uniondeb yr elfennau, fel bod y greadigaeth gyfan yn gallu byw gyda thi hyd dragwyddoldeb. Amen.

Cydnabyddiaeth am y ffotograffau

(cc) Jake Khuon, Justin Beck, Moni Sertel, Isidro Vila Verde